



Paratoi ar gyfer arholiadau

Mwy o wybodaeth:

<https://www.aber.ac.uk/cy/aberskills/exams>



Pum awgrym allweddol

1

Edrychwch ar hen bapurau arholiad

Edrychwch ar gyn-bapurau:

- Ar-lein: <https://www.aber.ac.uk/cy/past-papers/>
- Print: Lefel F, Llyfrgell Hugh Owen

Mae'r Pencampwyr Digidol Myfyrwyr hefyd wedi creu sawl adnodd i gefnogi myfyrwyr wrth iddynt baratoi ar gyfer eu harholiadau (cyrсияu Saesneg yn unig). Sganiwch y cod QR am fwy o wybodaeth:



2

Byddwch yn wybodus ar fformat yr arholiad

Po fwyaf y gwyddoch am fformat arholiad, y mwyaf parod y gallwch fod.

Beth yw fformat yr arholiad?

- Dewis lluosog?
- Ateb byr?
- Traethawd?



3

Datblygwch gynllun astudio

Bydd mapio cynllun astudio bythefnos neu dair wythnos cyn arholiad yn eich galluogi i osgoi cramio ac yn helpu i leddfu straen.

Paratowch restr o'r holl bynciau y byddwch yn gyfrifol amdanynt yn ystod yr arholiad. Byddai'n ddefnyddiol i chi ymgynghori ag amlinelliad eich cwrs neu nodiadau eich darlith.



4

Trefnwch eich deunydd

I lawer o gyrsiau, mae'n bwysig deall y manylion a'r cysyniadau mwy manwl o fewn deunydd y cwrs.

Yn aml mae hefyd angen gweld y berthynas rhwng gwahanol gysyniadau o fewn y cwrs.



5

Ymarfer

Ceisiwch ymarfer cymaint â phosibl o dan amodau ysgrifennu arholiad.

Dewch o hyd i gwestiynau ymarfer sydd o'r math a fydd yn yr arholiad; rhowch eich llyfrau i ffwrdd (oni bai ei fod yn arholiad llyfr agored) wrth i chi gwblhau cwestiynau'r ymarfer.

